

*O'r chwith — Dr Caradog Roberts, Elinor Dwyryd, Nansi Richards, Osborne Roberts, Caerwyn, Llinos Gronant, Tom T. Powell, Ioan Dwyryd, Cynan, Mrs D. M. Rowlands, Mai Roberts, Mathews Williams, Ap Heli, Corn Gwlad. Bardd y gadair — J. O. Williams, Porthmadog.*

# Awen 'Steddfod y Siop yn Lloegr

MAE'R hanesyn yma'n cychwyn ar bnawn braf o haf mewn byngalo yn un o bentrefi'r hen Sir Aberteifi. Roedd y perchennog yn ŵr wedi teithio ar led ac yn medru mwy nag un iaith dramor, ond yn Saesneg y siaradem. Syndod felly oedd ei glywed yn dweud ei fod wedi'i fagu yn Nhremadog.

Roedd ei dad yn fardd, meddai, a dyma foeli'r clustiau'n awr gan fod bardd yn rhywun yng Nghymru ar un adeg. Aeth â ni i'r cyntedd a dangos cadair eisteddfodol ei ddiweddar dad i ni. Nid un o'r cadeiriau anferthol gynt oedd hon ond un fechan chwaethus, y sedd a'r cefn o ledr coch, a draig aur arno. Cadair Eisteddfod Lewis, 1932, oedd hi.

Hon oedd cadair gyntaf yr Eisteddfod honno a'r enillydd oedd O.J. Williams.

Mae'r stori wedyn yn neidio i bentref Y Ffôr, ger Pwllheli. Bu O.J. Williams yn athro am gyfnod yn ysgol y pentref, yr hyn oedd o ddiddordeb arbennig i mi fel un a fynychodd yr ysgol honno.

Wedi holi, canfod iddo fod yn athro ar Mr H. Garrison Williams. Roedd ganddo ef lawer o atgofion amdano. Cofiai ef fod O.J. Williams, tra yn Y Ffôr, yn aros mewn fferm gyfagos a chan nad oedd yn gryf ei iechyd, deuai merched y fferm â llefrith cynnes iddo i'r ysgol bob bore. Dioddefai o'r darfodedigaeth a hyn mae'n debyg fu'n gyfrifol am ei farwolaeth annhymig ychydig dros ei ddeg ar hugain oed.

Cofia Mr Williams hefyd fod ganddo gar, — Morris Bentley *(Snub Nose)*. Ambell dro gofynnai'r athro am help yr hogiau i'w olchi yn ystod yr awr ginio. Fel gwobr, ac roedd hi'n wobr y dyddiau hynny, byddai'r hogiau yn cael mynd am dro yn y car ar ddydd Sadwrn. Pen y daith, un waith, oedd Y Carneddi, cartref Carneddog a'i wraig Catrin. Cawsant groeso yno a rhoi eu traed dan y bwrdd i gael te.

Yn ystod y pryd bwyd teimlai

**gan JOHN REES JONES**

Garrison rywbeth yn pwnio'i droed yn ysbeidiol. Yn y man gollyngodd ei hances ar lawr er mwyn cael gweld. Beth oedd yno o dan y bwrdd ond hwch fawr. Hi oedd yn ei bwnio wrth droi.

* * *

BU O.J. Williams, am gyfnod yn athro yn Ysgol Ganol, Pwllheli. Nid yn unig roedd yn fardd ond hefyd yn arlunydd medrus. Peintiodd lun o'r Ysgol honno, ac am flynyddoedd bu ar y wal yno. A oes cyfrif ohono erbyn hyn tybed? Dylid cofnodi hefyd iddo fod yn athro yn Yr Ysgol Ganol, Porthmadog.

Peth arall sydd wedi aros yng nghof Garrison Williams yw mynd i gynrychioli'r ysgol i'w gynhebrwng ym Mrynaerau.

Roedd cartref O.J. Williams nid nepell o'r capel. Tŷ bychan oedd o ac oherwydd hynny rhaid oedd dod â'r arch allan trwy'r ffenest, ac i wneud hynny tynnwyd ffrâm y ffenest.

Y cam nesaf oedd mynd i chwilio am hanes Eisteddfod Lewis yn *Y Brython* am Ebrill, 1932. Ar achlysur yr Eisteddfod cyhoeddwyd atodiad i'r *Brython* i ddathlu'r achlysur. Yn hwn dywedir mai Mr J.O. Wiliams, (sic) brodor o Borthmadog a enillodd y gadair. Testun ei bryddest oedd *Yr Hwyl Wen*. Ef hefyd oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y delyneg.

Roedd y trefniadau yng ngofal Cynan, ac ef hefyd a gynlluniodd y gadair. Am y gadair dywedid na 'Welsom ei chystal mewn Gwyl Genedlaethol'. Hefyd, 'cytunai'r hen Eisteddfodwyr mai dyma'r seremoni fwyaf artistig a threfnus a welwyd mewn Eisteddfod erioed.'

Ar y pryd athro yn yr Ysgol Ganol, Pwllheli oedd yr enillydd. Roedd yn 31 oed, ac yn frodor o Frynaerau. Dwy flynedd ynghynt roedd o wedi ennill y brif wobr am nofel yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

* * *

CYNAN, hefyd, oedd yn beirniadu a gellid tybio fod y gerdd fuddugol yn ei blesio'n fawr. Chwiliai, meddai, am ganu newydd, am gerdd realistig, ac fe'i cafodd. Cân oedd hi i'r hwyl wen a ddenodd lanc o Borthmadog i hwylio ar sgwner i'r môr mawr. Yr hwyl wen a lapiwyd amdano cyn ei ollwng i'w feddrod llaith dan y tonnau.

Gwelodd y bardd ramant yn yr hwyl heb geisio ei gwneud yn rhywbeth arall fel iechydwriaeth. Dyna fel roedd y gwynt yn chwythu yn y byd llenyddol y dyddiau hynny. Dyna'r math o ganu a gyfansoddai Cynan ei hun, felly doedd ryfedd i'r gerdd blesio.

Darllenodd Cynan rannau teimladwy o'r gerdd a chafodd pob dyfyniad gymeradwyaeth frwd y dorf.

Mae yna bum rhan i'r gerdd: 1. Cerdd yr Hen Sgwner; 2. Cerdd y Llongwr Bach; 3. Cerdd Dei Morris y Llongwr; 4. Cerdd Roli'r Mêt; 5. Cerdd Neptiwn.

Cerdd yw hi am y bachgen Guto, mab tafarn y *Ship* a aeth i'r môr ar y sgwner *Beti* a hwyliodd 'i Hambro', Corc, Belfast a Dulyn.' Rhedasant i storm. Llwyddodd y criw i gael yr hwyliau i gyd i lawr ond un hwyl wen a honno 'ar ucha'r mast'.

Ceir disgrifiad dramatig odiaeth o'r storm, a hawdd yw dychmygu Cynan yn ei afiaith yn ei darllen.

Meddai am yr hwyl:

*Cleciai a chwipiai honno yn y gwynt;*
*Gwynnach oedd hi na gwarrau'r tonnau gwyllt;*

Wedyn:

*A'r môr a'r awyr yn mynd heibio'n syn;*
*Cefais y rhaffau-gweld yr hwyl ar daen*
*Rhyngof a nef fel inc, fel golau gwyn*
*Aflonydd-neu fel ebol a'i draed blaen*
*Yn paflu'r gwynt a'i gynffon weithiau'n clecian;*

Dringodd Guto Wyn i fyny'r mast, ond

*Ac ar y foment, rhuthrodd dros y dŵr*
*Chwa fawr annisgwyl, megis dyrnod cawr;*
*Rhwygodd yr hwyl, fel llew yn rhwygo gŵr*
*A'i bafl, — a'i hyrddio ar y dec i lawr,*
*A dim ond ruban hir yn chwifio'n syn*
*Lle gynt y cydiai dwylo Guto Wyn.*

*Ond gwyddwn ar y pryd na byddai trip*
*I Gorc nac unman arall, mwy i Guto'r Ship.*

Fe'i claddwyd yn y môr a'i lapio yn yr hwyl wen. I orffen, ceir sianti'r môr:

*Hen ŵr a'i farf lliw'r ewyn*
*Cyhyd a gwymon môr*
*Eisteddai ger y tonnau*
*Ar graig gerllaw ei ddôr.*

Daw morforwyn ato a dweud fod y byd yn mynd ymlaen fel cynt

*Ond chwerthin wnaeth yr henwr, —*
*Chwerthin yn hir a ffri;*
*Roedd rhywbeth yn ei lygaid*
*Dyfnach na'i llygaid hi.*

Beuno oedd y ffugenw. Roedd Gwilym Deudraeth yn y seremoni, a Telynores Dwyryd ac arweiniwyd 'Hen Wlad fy Nhadau' gan Caradog Roberts.

* * *

BU FARW O.J. Williams Rhagfyr 16ed, 1933 yn 32 mlwydd oed. Ceir teyrnged iddo a hanes ei gynhebrwng yn *Yr Herald Cymraeg*. Ei gartref oedd Glendale, Pwllheli ond yng nghartref ei dad a'i fam, Mr a Mrs Samuel Williams, Sarn Badrig, Brynaerau, y bu farw.

Dyma fel y cofnodir yn y papur, 'Yn eu preswylfod hwy bu'n nychu am fisoedd, yno y bu farw.' Roedd ganddo wraig, Mabel a dau o blant, Beuno ac Awen. Caewyd Yr Ysgol Ganol, Pwllheli bnawn Iau o barch i'w goffadwriaeth.

Un o'i gyd-athrawon, Mr J.E. Jones, a ysgrifennodd y deyrnged iddo. Dywedai ef fod dylanwad John Masefield yn gryf arno. 'Pefriai ei lygaid wrth adrodd darnau o'i waith . . . Anghofiai ei hun er ei holl lesgedd . . . dangosai ei gariad at fywyd a'i awch amdano a'i ymdrech ddiflino i'w weld a'i ddarlunio ym mhob peth, gwersi, darluniau, odlau, pryddestau, nofelau a llythyrau.